RHEOLAU TLWS JOHN A CERIDWEN HUGHES UWCHALED

1. Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuenctid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc. **Gellir hefyd wobrwyo person sydd wedi dangos arweinyddiaeth arbennig wrth ymwneud â prosiectau penodol sydd yn cynnwys pobl ifanc yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

   Gwahoddir hefyd ceisiadau ar ran grwpiau o bobl ifanc sydd wedi bod yn ymwneud â phrosiect arbennig, gan nodi rôl yr arweinydd wrth sicrhau llwyddiant y prosiect hwnnw.

2. Derbynnir enwebiadau gan unigolion neu fudiadau neu bwyllgorau.

3. Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o'r Urdd / enfys@urdd.org

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu prosiectau:

1. Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud ag ieuenctid sy'n dysgu'r iaith.

2. Dylai fod yn waith gwirfoddol.

3. Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol.

4. Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid (diwylliannol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuenctid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).

5. Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuenctid.

6. Gellir anfon tystiolaeth gan bobl ifanc i ategu'r cais, a dylid cyfeirio at enghreifftiau penodol o'u gwaith.

Bydd y Panel Dewis yn cynnwys y canlynol:
Cynrhychiolydd o Fwrdd SyrIfanC yr Urdd
Cynrychiolydd o Fudiad Ffermwyr Ifanc
Prif Weithredwr yr Urdd